



**Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan  
reolaeth ar gyfer hen gymwysterau TGAU Iechyd  
a Gofal Cymdeithasol a TGAU Technoleg  
Gwybodaeth a Chyfathrebu (Wedi'i Atgyfnerthu)**

**Yn weithredol o 1 Medi 2018**

**Dyma'r ddogfen y dylai athrawon pwnc, swyddogion arholiadau a phenaethiaid canolfannau gyfeirio ati i gael canllawiau a chyfarwyddiadau sy'n gyffredin i'r cymwysterau TGAU a nodir uchod.**

**Rhaid anfon y cyfarwyddiadau hyn ymlaen yn electronig at yr arweinydd pwnc perthnasol yn y ganolfan a'u darllen ynghyd â manyleb y pwnc**

**Cynnwys**

<b>1</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: yr egwyddorion sylfaenol</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Rheoli aseiad dan reolaeth: pennu tasgau</b>	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Rheoli aseiad dan reolaeth: rhyddhau tasgau</b>	<b>5</b>
<b>4</b>	<b>Rheoli aseiad dan reolaeth: gwneud tasgau</b>	<b>5</b>
<b>5</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: rheoli'r gwaith o farcio tasgau</b>	<b>15</b>
<b>6</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: trefniadau mynediad</b>	<b>21</b>
<b>7</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: ystyriaeth arbennig</b>	<b>22</b>
<b>8</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: rhoi cynnig arall arni</b>	<b>24</b>
<b>9</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: ailgofrestru ar gyfer unedau/cydrannau yn 2018/19</b>	<b>25</b>
<b>10</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: camymddwyn</b>	<b>27</b>
<b>11</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: gwasanaethau ymholiadau am ganlyniadau</b>	<b>29</b>
<b>12</b>	<b>Aseiad dan reolaeth: materion eraill</b>	<b>30</b>

## 1 Asesiad dan reolaeth: yr egwyddorion sylfaenol

### Beth yw asesiad dan reolaeth?

Mae asesiad dan reolaeth yn mesur sgiliau pwnc-benodol nad ydynt o angenrheidrwydd yn cael eu profi gan arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamseru.

### Beth yw'r broses asesu dan reolaeth?

Mae tair lefel o reolaeth:

- uchel;
- canolig;
- cyfyngedig.

Gallai gwahanol lefelau o reolaeth fod yn berthnasol i bob un o'r tri cham:

- pennu tasgau;
- gwneud tasgau;
- marcio tasgau.

Gallai'r cam o wneud tasgau gynnwys dau is-gam sy'n gofyn am wahanol lefelau o reolaeth.

Mae lefel y rheolaeth ar gyfer pob cam/is-gam yn cael ei bennu gan y rheoleiddwyr cymwysterau fel bod cysondeb rhwng y cyrff dyfarnu. Mae'r cyrff dyfarnu'n glynu wrth reoliadau asesu dan reolaeth y rheoleiddwyr ar gyfer cymwysterau TGAU.

### Sut mae CBAC yn monitro'r broses o reoli asesiadau dan reolaeth mewn canolfannau?

Mae CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau sy'n cyflwyno'r cymwysterau TGAU hyn fod â pholisi wedi'i sefydlu ar gyfer rheoli asesiadau di-arholiad sy'n gallu cynnwys asesiadau dan reolaeth. Rhaid i'r polisi:

- gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cynllunio a rheoli asesu dan reolaeth;
- diffinio rolau a chyfrifoldebau staff yng nghyd-destun asesu dan reolaeth;
- rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag asesu dan reolaeth.

Nid oes angen i ganolfannau sefydlu Polisi Asesiad Di-arholiad a Pholisi Asesiad dan Reolaeth ar wahân. Gall arolygydd canolfannau'r CGC ofyn i'r swyddog arholiadau gadarnhau bod polisi Asesiad Di-arholiad ar waith. Bydd y canllawiau a ddarperir yn y ddogfen hon yn helpu pennaeth y ganolfan i sicrhau bod polisi asesiad di-arholiad / asesiad dan reolaeth y ganolfan yn addas i'r pwrpas.

### Pa fanylebau TGAU yr effeithir arnynt?

**Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i fanylebau TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TGCh sydd ag uned/cydran asesiad dan reolaeth**

## 2 Rheoli asesiad dan reolaeth: pennu tasgau

### I ba raddau mae canolfannau'n rhan o'r gwaith o osod tasgau?

Mae'n dibynnu p'un ag yw'r cam o osod tasgau o dan lefel reolaeth uchel, ganolig neu gyfyngedig.

Rheolaeth uchel	Lle nodir rheolaeth uchel, y corff dyfarnu sy'n gyfrifol am osod tasgau. Gyda'r rhan fwyaf o fanylebau, mae canolfannau'n dewis o blith nifer o dasgau cyffelyb a ddarperir gan y corff dyfarnu. Mae'r tasgau hyn wedi'u dylunio i sicrhau bod y meini prawf asesu y manylir arnynt yn y fanyleb yn cael eu bodloni.
-----------------	--

Rheolaeth ganolig	Lle nodir rheolaeth ganolig, gall canolfannau ddewis o blith nifer o dasgau cyffelyb a ddarperir gan y corff dyfarnu. Fel arall, gallai canolfannau ddewis cynllunio eu tasg(au) eu hunain gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn y fanyleb. Rhaid i ganolfannau gymryd gofal i sicrhau bod y dasg/tasgau yn rhoi cyfle i bob ymgeisydd fodloni'r meini prawf asesu a chyrraedd yr ystod lawn o farciau.
-------------------	---

Rheolaeth gyfyngedig	Lle nodir rheolaeth gyfyngedig, rhaid i bob canolfan gynllunio ei thasg(au) ei hun gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn y fanyleb. Gallai'r corff dyfarnu ddarparu tasgau enghreifftiol. Rhaid i ganolfannau gymryd gofal i sicrhau bod y dasg/tasgau yn rhoi cyfle i bob ymgeisydd fodloni'r meini prawf asesu a chyrraedd yr ystod lawn o farciau.
----------------------	---

### Pryd mae'n dderbyniol addasu cyd-destun tasgau a osodir?

Lle bo'r corff dyfarnu'n gosod y dasg, gall manylebau roi cyfleoedd i ganolfannau addasu cyd-destun y tasgau hynny i gyd-fynd ag amgylchiadau penodol y ganolfan.

Mae gan bob canolfan yr hawl i:

- wneud y dasg yn berthnasol i'w hamgylchedd;
- diwallu anghenion a diddordebau ei hymgeiswyr;
- sicrhau bod adnoddau priodol yn hygyrch i ymgeiswyr.

### A yw'n dderbyniol rhoi copi o'r meini prawf marcio i ymgeiswyr?

**Ydy.** Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r meini prawf a ddefnyddir i asesu eu gwaith. Yna gallant ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i ennill marciau. Mae manylebau'n disgrifio'r meini prawf marcio'n fanwl. Mae'n berffaith dderbyniol i athrawon greu fersiwn wedi'i symleiddio sy'n haws i ymgeiswyr ei ddeall, ar yr amod nad yw'n benodol i waith ymgeisydd unigol neu grŵp o ymgeiswyr.

### 3 Rheoli asesiad dan reolaeth: rhyddhau tasgau

#### Pryd mae tasgau asesiad dan reolaeth ar gael i ganolfannau?

Mae'n rhaid i chi gyfeirio at fanyleb CBAC i gael y dyddiad y bydd tasgau'r asesiad dan reolaeth yn cael eu rhyddhau. Mae CBAC yn cyhoeddi tasgau ymhell ymlaen llaw er mwyn caniatáu amser i ganolfannau gynllunio, dod o hyd i adnoddau ac addysgu'r ymgeiswyr.

#### Sut mae tasgau asesiad dan reolaeth a chynlluniau marcio'n cael eu rhyddhau i ganolfannau?

Mae'n dibynnu p'un ag yw'r cam o osod tasgau o dan lefel reolaeth uchel, ganolig neu gyfyngedig.

- Lle nodir rheolaeth uchel, bydd tasgau asesu dan reolaeth ar gael drwy allrwyd ddiogel y corff dyfarnu perthnasol.
- Lle nodir rheolaeth ganolig neu gyfyngedig, fel arfer gellir dod o hyd i'r tasgau ar wefan y corff dyfarnu.

Fel rheol mae cynlluniau marcio a meini prawf asesu wedi'u cynnwys yn y manylebau.

Mewn pynciau lle gallai gweld gwaith a wnaethpwyd yn yr un tasgau mewn blynyddoedd blaenorol fod o fantais i ymgeiswyr, mae rheoleiddwyr yn ei gwneud yn ofynnol i newid y tasgau bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu mai dim ond am gyfnod penodol y bydd pob tasg yn 'fyw'.

#### Rhaid i athrawon sicrhau eu bod yn defnyddio'r dasg gywir ar gyfer y flwyddyn y cyflwynir y gwaith.

#### Pa gamau y dylid eu cymryd os rhoddir y dasg anghywir i ymgeiswyr?

Rhaid i'r ganolfan wneud trefniadau i'r ymgeiswyr gyflawni'r dasg gywir. Bydd cyrff dyfarnu'n gwneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn buddiannau ymgeiswyr ond mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl derbyn gwaith sy'n seiliedig ar y dasg anghywir. Felly dylai canolfannau gymryd gofal mawr i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r dasg gywir i ymgeiswyr.

### 4 Rheoli asesiad dan reolaeth: gwneud tasgau

#### 4.1 Goruchwyliaeth

**Nid** oes gofyn cael goruchwylwyr ac arddangos poster y *CGC Dim Ffonau Symudol a Rhybudd i Ymgeiswyr y CGC*. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod goruchwylwyr yn ymwybodol o'r gofynion pwnc-benodol.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer asesu dan reolaeth a amlinellir yn nogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad* – <https://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-candidates---non-examination-assessments>

Yn enwedig felly, rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr:

- yn deall bod yn rhaid cyfeirio at wybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig;
- yn derbyn canllawiau ar sut i gyfeirio'n gywir;
- yn ymwybodol na ddylent lôn-ladrata o ddeunyddiau eraill.

**Beth yn union mae goruchwyliaeth ffurfiol (lefel uchel o reolaeth) yn ei olygu?**

Mae cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau. Rhaid i'r ganolfan sicrhau:

- bod y goruchwylwr yn gallu gweld pob ymgeisydd yn glir drwy gydol y sesiwn / sesiynau;
- bod deunyddiau arddangos a allai fod o gymorth yn cael eu tynnu neu eu gorchuddio;
- nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio e-bost, y rhyngwrwyd na ffonau symudol;
- bod ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith yn annibynnol;
- nad yw ymgeiswyr yn cyfathrebu â'i gilydd;
- nad oes unrhyw fath o gymorth yn cael ei roi.

**Beth yn union mae goruchwyliaeth anffurfiol (lefel ganolig o reolaeth) yn ei olygu?**

Nid oes rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngwrwyd. Mae'n **rhaid** i ganolfannau bob amser wirio'r gofynion pwnc-benodol a gyhoeddir gan y corff dyfarnu. Rhaid i'r ganolfan sicrhau:

- bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad;
- bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau bod y gwaith yn gallu cael ei ddilysu;
- mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.

**Beth yn union mae goruchwyliaeth gyfyngedig (lefel o reolaeth gyfyngedig) yn ei olygu?**

Gall gwaith gael ei gwblhau y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Lle nodir rheolaeth gyfyngedig, gall ymgeiswyr fel arfer wneud y canlynol:

- defnyddio adnoddau electronig ac adnoddau print heb gyfyngiadau;
- defnyddio'r rhyngwrwyd heb gyfyngiadau;
- gweithio mewn grwpiau.

**4.2 Cyngor ac adborth**

Dylai canolfannau gynghori ymgeiswyr ynghylch agweddau fel y rhai a restrir isod cyn dechrau ar y gwaith asesu dan reolaeth:

- ffynonellau gwybodaeth;
- perthnasedd y deunyddiau/cysyniadau;
- strwythur yr ymateb (er enghraifft, teitlau neu gynnwys penodau);
- technegau casglu data;
- technegau cyflwyno data;
- sgiliau dadansoddi a gwerthuso;
- ystyriaethau iechyd a diogelwch;
- diogelwch eu gwaith.

**Ni** ddylai canolfannau roi atebion enghreifftiol na fframiau ysgrifennu yn benodol i'r dasg (fel amlinelliad, penawdau paragraffau neu benawdau adrannau) oni bai bod y fanyleb neu ganllawiau pwnc-benodol yn nodi'n wahanol.

**Pa gyngor ac adborth y gallaf eu rhoi i ymgeiswyr yn ystod y cam o wneud tasgau?**

Gallai'r cam o wneud tasgau gynnwys dau is-gam, lle gallai gwahanol lefel o reolaeth fod yn berthnasol i'r ddau.

**Os nodir lefel uchel o reolaeth, ni ddylech roi cyngor nac adborth o unrhyw fath.**

Os nodir rheolaeth ganolig neu gyfyngedig, caniateir rhai categorïau o gyngor/adborth. Mae'r tabl canlynol yn rhoi arweiniad cyffredinol, ond mae rhai eithriadau.

**Rhaid i ganolfannau gyfeirio at y fanyleb neu'r canllawiau pwnc-benodol perthnasol i gael cadarnhad.**

Categori o gyngor/adborth	Rheolaeth uchel	Rheolaeth ganolig	Rheolaeth gyfyngedig
• Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel <b>gyffredinol</b> .	✗	✓	✓
• Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	✗	✓	✓
• Caniatáu i ymgeiswyr adolygu ac ailddrafftio'r gwaith.	✗	✓	✓
• Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	✗	✗	✗
• Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	✗	✗	✗
• Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	✗	✗	✗

**Beth os oes angen i ymgeisydd gael cymorth y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn y fanyleb?**

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir yn y fanyleb neu ganllawiau pwnc-benodol, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth ar gael i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan y corff dyfarnu. Rhaid ystyried yr ymyrraeth wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

**Beth yw'r rheolau ynglŷn ag ailddrafftio?**

Mae angen gofal penodol os yw drafftio yn un o'r sgiliau sy'n cael ei asesu. Yn y sefyllfa hon:

- bydd y meini prawf asesu yn caniatáu i'r athro roi marciau lle mae tystiolaeth o ddrafftio ac ailddrafftio;
- rhaid i athrawon gynnal asesiad interim o waith ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeisydd ddangos y gall weithio ar ei liwt ei hun wrth ailddrafftio, heb gymorth yr athro.

Pan **nad** yw drafftio yn un o'r sgiliau sy'n cael ei asesu, gall athrawon adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor **ar lefel gyffredinol** oni bai bod y fanyleb neu'r canllawiau pwnc-benodol yn nodi'n wahanol.

### Sut dylid monitro a chofnodi'r cyswllt rhwng yr athro a'r ymgeisydd?

Dylai'r athro gadw cofnod o adborth a chyngor a roddwyd i grwpiau o ymgeiswyr ac i ymgeiswyr unigol lle gallai hyn effeithio ar y marciau a ddyfernir. Lle mae gwaith grŵp wedi'i ganiatáu, dylai cofnod yr athro ddisgrifio cyfraniad unigol yr ymgeisydd at unrhyw waith grŵp.

## 4.3 Adnoddau

### Pa adnoddau a ganiateir dan bob lefel o reolaeth?

Rheolaeth uchel (goruchwyliaeth ffurfiol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfyngiadau llym bob amser o ran defnyddio adnoddau ac fel arfer dim ond nodiadau paratoadol yr ymgeisydd a ganiateir.</li> <li>Ni chaniateir defnyddio'r rhyngwyd.</li> <li>Os yw'r fanyleb yn caniatáu i ymgeiswyr ddod â'u cyfrifiaduron eu hunain neu ddyfeisiau electronig eraill i sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol, rhaid cynnal gwiriadau priodol er mwyn sicrhau y caniateir yr holl ddeunydd sydd wedi'i storio ar y ddyfais.</li> </ul>
Rheolaeth ganolig (goruchwyliaeth anffurfiol)	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Fel arfer</b> nid oes cyfyngiadau o ran defnyddio adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan a drwy'r rhyngwyd. Mae rhai eithriadau. Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.</li> </ul>
Rheolaeth gyfyngedig (goruchwyliaeth gyfyngedig)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewn nifer o bynciau bydd angen i ymgeiswyr gasglu gwybodaeth o ffynonellau sydd wedi'u cyhoeddi wrth ymchwilio ac wrth gynllunio eu tasgau.</li> <li>Caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngwyd ac unrhyw adnoddau electronig ac adnoddau print sydd ar gael iddynt, a hynny heb unrhyw gyfyngiadau.</li> </ul>

### A all ymgeiswyr gyflwyno adnoddau newydd rhwng sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol?

**Na.** Ni chaniateir i ymgeiswyr ychwanegu at nodiadau nac adnoddau rhwng sesiynau. Pan fydd gwaith sydd i'w asesu'n cael ei gynhyrchu dros gyfnod o nifer o sesiynau, rhaid casglu'r deunydd canlynol a'i storio'n ddiogel ar ddiwedd pob sesiwn:

- y gwaith sydd i'w asesu;
- gwaith paratoadol.

Mae angen bod hyd yn oed yn fwy gofalus os yw'r ganolfan yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio cyfrifiaduron i storio'r gwaith paratoadol a/neu ddefnyddio prosesydd geiriau i wneud y gwaith sydd i'w asesu (**gweler tudalen 14**).

Mae'r ganolfan yn gyfrifol am sefydlu a rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau:

- bod pob darn o waith sydd i'w asesu yn cael ei gwblhau dan oruchwyliaeth ffurfiol;
- nad yw ymgeiswyr yn gallu gweld gwaith paratoadol rhwng sesiynau dan oruchwyliaeth.



## **A oes angen i ymgeiswyr gadw cofnod o waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth anffurfiol a/neu gyfyngedig?**

Rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w asesu gynnwys cyfeiriadau lle bo'n briodol.

Er mwyn hwyluso'r broses hon, dylai pob ymgeisydd gadw cofnod manwl o'i waith ymchwil, gwaith cynllunio, adnoddau ac ati. Rhaid i'r cofnod gynnwys yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys llyfrau, gwefannau a DVDau.

### **Sut dylid cydnabod ffynonellau?**

Rhoddir arweiniad yn nogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad* – <https://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-candidates---non-examination-assessments>

#### **4.4 Terfynau geiriau ac amser**

Mae manylebau a dogfennau pwnc-benodol yn cynnwys canllawiau ar derfynau geiriau neu amser priodol.

### **Sut gall canolfannau bennu terfynau amser?**

Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod ymgeiswyr yn cadw at y terfynau amser penodedig pan nodir rheolaeth uchel (goruchwyliaeth ffurfiol) neu reolaeth ganolig (goruchwyliaeth anffurfiol). Pan fydd gwaith yn cael ei wneud dan reolaeth gyfyngedig, amserau er arweiniad yn unig a roddir (oni ddywedir yn wahanol yn y fanyleb), ond dylai canolfannau annog ymgeiswyr i gadw o fewn y terfyn geiriau.

### **Beth yw'r canlyniadau os bydd gwaith ymgeisydd yn mynd dros y terfyn geiriau?**

Dylech gyfeirio at y fanyleb berthnasol neu'r canllawiau pwnc-benodol am eglurhad. Mae manylebau'n rhannu i'r tri chategori eang a ddisgrifir yn y tabl canlynol.

<b>Categori'r fanyleb</b>	<b>Canlyniadau mynd dros y terfyn geiriau</b>
Rhoddir terfyn geiriau fel arweiniad yn unig.	Nid oes cosb am fynd dros y terfyn geiriau.
Mae'r meini prawf asesu'n caniatáu rhoi marciau am waith sydd â ffocws a chynildeb.	Efallai na fydd ymgeiswyr sy'n mynd dros y terfyn geiriau'n gallu cael yr ystod lawn o farciau.
Nodir terfyn geiriau llym.	Ni fydd gwaith sydd dros y terfyn geiriau'n cael ei ystyried a/neu gallai'r ymgeisydd gael cosb ychwanegol yn ystod y broses farcio a/neu gymedroli.

## 4.5 Amserlennu

### Beth y gall canolfannau ei wneud i leihau problemau ymarferol?

- 1 Cynlluniwch ymlaen llaw – lluniwch amserlen flynyddol ar gyfer sesiynau asesu dan reolaeth y bydd angen trefnu goruchwyliaeth anffurfiol neu ffurfiol ar eu cyfer a/neu ddefnyddio adnoddau TG y ganolfan.
- 2 Sicrhewch fod cydweithwyr TG yn rhan o'r ymarfer cynllunio.
- 3 Cyfeiriwch at yr adrannau asesu dan reolaeth o fanylebau unigol a chanllawiau pwnc-benodol i gael cyngor ynghylch y cyfnod o amser y bydd ei angen. Penderfynwch faint o sesiynau y bydd eu hangen, a beth fydd yn gweithio orau i'ch canolfan o ran y cyfnodau rhwng sesiynau.
- 4 Bydd gan rai ymgeiswyr hawl i gael amser ychwanegol. Rhaid ystyried y pynciau a nifer yr ymgeiswyr yr effeithir arnynt wrth lunio'r amserlen.
- 5 Rhaid ystyried y tebygolrwydd y bydd rhai ymgeiswyr yn absennol am un neu fwy o'r sesiynau dan oruchwyliaeth. Bydd angen rhoi'r cyfle iddynt gael sesiynau yn lle'r rhai a gollwyd. Nodwch opsiynau ar gyfer dygymod ag absenoldebau achlysurol ac asesu'r effaith mae pob opsiwn yn debygol o'i gael ar staff, ymgeiswyr ac adnoddau TG.
- 6 Rhannwch asesiadau dan reolaeth ar draws Blwyddyn 10 ac 11, a chydlynwch amserlenni adrannol fel nad yw ymgeiswyr yn gwneud asesiadau dan reolaeth mewn nifer o bynciau ar yr un pryd.
- 7 Adolygwch weithdrefnau'r ganolfan o ddydd i ddydd o ran diogelwch TG a storio deunyddiau cyfrinachol. Cyhyd â bod y trefniadau diogelwch o ddydd i ddydd yn gadarn nid yw'n ofynnol rhoi mesurau ychwanegol ar waith ar gyfer asesiadau dan reolaeth. Er enghraifft, nid yw'n ofynnol i bob ymgeisydd gael enw defnyddiwr a chyfrinair gwahanol i bob pwnc asesu dan reolaeth.

## 4.6 Gweithio ar y cyd a gwaith grŵp

### Pryd mae gwaith grŵp yn cael ei ganiatáu?

Mae ymgeiswyr yn rhydd i weithio ar y cyd pan fyddant yn gwneud gwaith ymchwil a gwaith paratoadol dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

Lle mae'r fanyleb yn caniatáu hynny, gellid gwneud rhai aseiniadau fel rhan o grŵp. Gallai'r fanyleb gyfyngu ar uchafswm maint y grŵp. Rhaid iddo fod yn bosibl priodoli canlyniadau y gellir eu hasesu i ymgeiswyr unigol.

Rhaid i bob ymgeisydd ysgrifennu ei gyfrif/chyfrif ei hun o'r aseiniad. Mae'n dderbyniol i bob aelod arall o'r grŵp gofnodi'r un data ond rhaid i bob ymgeisydd ddefnyddio ei eiriau ei hun i ddisgrifio sut cafwyd hyd i'r data a dod i'w gasgliadau ei hun. Lle mae'n ofynnol i ymgeiswyr lunio arteffact, caniateir iddynt gydweithio, ond rhaid iddynt lunio eu hymatebion eu hunain a rhaid nodi eu cyfraniadau unigol yn glir. Rhaid i gyfraniad pob ymgeisydd unigol fod yn glir o edrych ar y gwaith ei hun a'r ffurflenni cofnodi, os yn berthnasol.

### A ddylai pob aelod o'r grŵp gael yr un marc?

**Na ddylai.** Caniateir gwaith grŵp ond ni chaniateir asesiad grŵp. Bydd aelodau o'r grŵp wedi gwneud cyfraniadau gwahanol a rhaid asesu gwaith pob ymgeisydd yn unigol.

### Sut mae credyd yn cael ei rannu i ymgeiswyr unigol?

Mae'r ganolfan yn gyfrifol am fonitro gwaith grŵp a sicrhau bod cyfraniad pob ymgeisydd yn cael ei asesu ar wahân.

## 4.7 Gweithdrefnau dilysu

### Sut mae gwaith ymgeiswyr yn cael ei ddilysu?

**Rhaid** i bob ymgeisydd lofnodi datganiad i gadarnhau mai ei waith digymorth ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol.

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, **rhaid** i bob athro lofnodi'r datganiad dilysu i gadarnhau'r canlynol:

- mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith;
- bod y gwaith wedi'i gwblhau o dan yr amodau gofynnol.

**Rhaid** i athrawon fod yn ddigon cyfarwydd â safon gyffredinol yr ymgeisydd i farnu p'un ag yw darn o waith a gyflwynir o fewn ei allu.

Mae'n rhaid cadw datganiadau ymgeiswyr wedi'u llofnodi ar ffeil nes i'r dyddiad cau ar gyfer gofyn am adolygiad o'r canlyniadau fynd heibio neu nes i unrhyw apêl, ymholiad camymddwyn neu ymholiad canlyniadau arall gael ei gwblhau, pa un bynnag fo hwyraf. Efallai y byddant yn destun arolygiad gan Arolygydd Canolfannau CGC.

## Beth os yw athro yn amau dilysrwydd y gwaith?

Os na allwch gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir:

- peidiwch â derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu;
- cofnodwch farc o sero am y gwaith a asesir yn fewnol.

Os ydych chi'n poeni am achos posibl o gamymddwyn, neu os na allwch chi ddilysu'r gwaith am unrhyw reswm arall, **rhaidd** i chi roi gwybod i'ch swyddog arholiadau.

(Gweler adran 10)

### 4.8 Cyflwyniad y gwaith

- 1 Caniatewch i ymgeiswyr airbroseu eu gwaith ysgrifenedig os yw'n ymarferol iddynt wneud hynny.  
**Nid** yw'r rheoliadau sydd i'w gweld yn adran 8 dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* yn berthnasol i asesiadau dan reolaeth.
- 2 Dywedwch wrth ymgeiswyr am roi'r manylion canlynol ar bob tudalen fel pennyn neu droedyn:
  - rhif 5 digid y ganolfan;
  - rhif yr ymgeisydd;
  - cod yr uned/cydran.
- 3 Caniatewch i ymgeiswyr ddefnyddio'r gwiriwr sillafu/gramadeg pan maent yn gairbroseu oni bai bod y fanyleb neu'r canllawiau pwnc-benodol yn nodi'n wahanol.
- 4 Dylech annog ymgeiswyr sy'n cyflwyno gwaith wedi'i ysgrifennu â llaw i ddefnyddio inc du ac i sicrhau y gellir darllen eu llawysgrifen.
- 5 Cyflwynwch waith prosesu geiriau neu wedi'i ysgrifennu â llaw ar bapur A4 oni bai bod y fanyleb yn nodi'n wahanol.
- 6 Dylech gynnwys copïau o gyflwyniadau, siartiau, arteffactau, ffotograffau, llythyrau, fideos, recordiadau sain, trawsgrifiadau o gyfweiliadau a datganiadau tyst gan athrawon sy'n goruchwyllo lle bo hynny'n briodol.
- 7 Ystyriwch yswirio deunyddiau gwerthfawr neu fregus yn erbyn colled neu ddifrod. Nid yw cyrff dyfarnu'n atebol am waith a gollwyd neu ddifrod a wnaed yn ystod cymedroli neu wrth i'r gwaith gael ei gludo.
- 8 Peidiwch â chynnwys eitemau o werth gwirioneddol neu bersonol fel ffotograffau na thystysgrifau.
- 9 Bydd angen cydsyniad gan rieni/gwarchodwyr ar ddechrau'r cwrs os cynhwysir fideos neu ffotograffau/lluniau o ymgeiswyr fel tystiolaeth o gyfranogiad neu gyfraniad.
- 10 Tynnwch unrhyw gloriau neu ffolderi swmpus cyn anfon y gwaith i'w gymedroli neu i gael ei farcio'n allanol.
- 11 Sicrhewch fod gwaith pob ymgeisydd yn cael ei gysylltu'n ddiogel a bod taflen glawr y corff dyfarnu wedi'i llenwi'n llawn ac wedi'i chysylltu â'r gwaith.

## 4.9 Cadw deunyddiau'n ddiogel

### Beth mae storio deunyddiau'n ddiogel yn ei olygu yng nghyd-destun asesu dan reolaeth?

Cist neu gwpwrdd wedi ei gloi yn ddiogel yw storfa ddiogel (ble mae gwaith ar ffurf copi caled yn cael ei storio).

Lle bo ymgeiswyr yn cynhyrchu arteffactau (e.e. Celf a Dylunio neu Dylunio a Thechnoleg) gallai hynny olygu storio'r deunyddiau'n ddiogel mewn ystafell ddosbarth, stiwdio neu weithdy sy'n cael ei gloi neu'n cael ei oruchwyllo o ddiwedd un sesiwn i ddechrau'r nesaf.

### A yw'n ofynnol storio gwaith ymgeiswyr yn ddiogel drwy gydol y cam o wneud tasgau?

**Nac ydy.** Pan mae ymgeiswyr yn gwneud gwaith ymchwil, casglu data neu'n gwneud unrhyw waith paratoadol arall o dan reolaeth gyfyngedig (goruchwyliaeth gyfyngedig), **nid** yw'n ofynnol storio'r deunyddiau'n ddiogel yn ystod y cam hwn.

### Pryd mae angen storio gwaith ymgeiswyr yn ddiogel felly?

Mae'n ofynnol storio'r gwaith yn ddiogel o'r adeg y bydd ymgeiswyr yn dechrau cynhyrchu'r gwaith i'w asesu.

Rhaid casglu pob darn o waith a gyflwynir i'w asesu ar ddiwedd pob sesiwn a'i storio'n ddiogel rhwng sesiynau.

### A oes angen storio gwaith paratoadol yr ymgeiswyr yn ddiogel hefyd?

**Oes**, os yw'r gwaith a gwblheir i'w asesu yn cael ei gynhyrchu dan reolaeth uchel (goruchwyliaeth ffurfiol).

Rheolaeth uchel (goruchwyliaeth ffurfiol) O'r adeg y mae ymgeiswyr yn dechrau cynhyrchu'r gwaith i'w asesu, ni chaniateir iddynt addasu nac ychwanegu at eu gwaith paratoadol.

Rhaid casglu **pob** darn o waith felly ar ddiwedd pob sesiwn a'u storio'n ddiogel rhwng sesiynau – h.y. gwaith i'w asesu **a** gwaith paratoadol.

Rheolaeth ganolig (goruchwyliaeth anffurfiol) Rhaid casglu'r gwaith i'w asesu ar ddiwedd pob sesiwn a'i storio'n ddiogel rhwng sesiynau. **Nid** yw hyn yn cynnwys gwaith paratoadol oni bai bod y fanyleb neu'r canllawiau pwnc-benodol yn nodi'n wahanol.

Caniateir i ymgeiswyr barhau i gyflawni'u gwaith paratoadol dan reolaeth gyfyngedig (goruchwyliaeth gyfyngedig) y tu hwnt i'r adeg y maent yn dechrau cynhyrchu'r gwaith i'w asesu.

### Beth os yw gwaith ymgeiswyr ar ffurf electronig?

Gallai gwaith paratoadol ymgeiswyr fod ar ffurf electronig. Gallai'r gwaith maent yn ei gynhyrchu i'w asesu fod ar ffurf electronig hefyd. Rhaid i ganolfannau gymryd camau i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer storio'r gwaith yn ddiogel fel y disgrifir uchod. Gallai hyn gynnwys casglu cofbinau

i'w storio'n ddiogel rhwng sesiynau neu rwystro ymgeiswyr rhag cael mynediad i ardaloedd penodol o rwydwaith TG y ganolfan.

### **A oes hawl gan ymgeiswyr ddefnyddio eu cyfrifiaduron eu hunain neu ddyfeisiau electronig eraill?**

**Oes**, ond rhaid cymryd camau ychwanegol ymlaen llaw os yw canolfan yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio'u dyfeisiau eu hunain, naill ai i storio gwaith paratoadol a/neu i ysgrifennu'r gwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r ganolfan yn gyfrifol am sefydlu a rhoi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod y ganolfan yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer storio gwaith yn ddiogel fel y disgrifir uchod.

### **A all athrawon fynd â gwaith adref i'w farcio?**

**Gallant**, cyhyd â bod rhagofalon ar waith ynglŷn â chadw'r gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

### **Pryd gall y gwaith sydd wedi'i farcio gael ei dynnu allan o'r storfa ddiogel?**

**Rhaid** storio gwaith nad oes ei angen at bwrpasau cymedroli a gwaith sy'n cael ei ddychwelyd ar ôl cymedroli yn ddiogel hyd nes y bydd yr holl wasanaethau ar ôl y canlyniadau posibl wedi dod i ben. Os na fydd cais am wasanaethau ar ôl y canlyniadau, gellir dychwelyd y gwaith at ymgeiswyr ar ôl dyddiad cau'r ymholiadau am ganlyniadau i'r gyfres berthnasol. Os bydd cais am wasanaethau ar ôl y canlyniadau, gellir dychwelyd gwaith unwaith y bydd yr ymholiad am ganlyniadau ac unrhyw apêl ddilynol wedi dod i ben.

**Rhaid i ganolfannau atgoffa'r ymgeiswyr i gadw eu gwaith yn ddiogel bob amser. Ni ddylent rannu ar-lein, ar y cyfryngau cymdeithasol na defnyddio unrhyw ddulliau eraill i rannu gwaith sydd wedi'i gwblhau neu waith sydd wedi'i gwblhau'n rhannol. Dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr am ddogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr - Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngrwyd* - < <http://www.icq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-candidates---social-media> >**

### **Pryd gellid tynnu gwaith paratoadol o'r storfa ddiogel?**

Dylai gwaith paratoadol barhau i gael ei storio'n ddiogel hyd nes y bydd y marciau'n cael eu cyflwyno i'r corff dyfarnu.

## 5 Asesiad dan reolaeth: rheoli'r gwaith o farcio tasgau

### 5.1 Marcio unedau/cydrannau asesu dan reolaeth sy'n cael eu marcio'n fewnol

Mae athrawon yn gyfrifol am farcio gwaith yn unol â'r meini prawf marcio a nodir yn y fanyleb berthnasol a dogfennau pwnc-benodol cysylltiedig.

Dylai'r athro anodi'r gwaith er mwyn rhoi tystiolaeth i ddangos **sut a pham** mae marciau wedi'u dyfarnu. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o safoni'r marcio yn y ganolfan ac yn galluogi'r cymedrolwr i wirio bod y marcio wedi'i wneud yn unol â'r meini prawf asesu. Os na all y cymedrolwr ddod o hyd i dystiolaeth i gyfiawnhau'r marciau a roddir i ymgeisydd, efallai y bydd y gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ganolfan i gael esboniad pellach neu gallai'r marc gael ei newid.

### 5.2 Anodi a marcio

Anodwch y gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilynwch y canllawiau yn y fanyleb berthnasol a'r dogfennau pwnc-benodol cysylltiedig.</li> <li>Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich marciau. Nodwch y meini prawf asesu sydd wedi'u bodloni.</li> <li>Byddwch yn glir ac yn ddiamwys.</li> <li>Defnyddiwch ymadroddion allweddol o'r meini prawf. Er enghraifft, ymwybyddiaeth o werthoedd, defnyddio amrywiaeth o dechnegau, dethol data priodol.</li> <li>Rhowch anodiadau ar bwyntiau priodol o'r gwaith – yn yr ymyl neu yn y testun – neu ysgrifennwch sylwadau ar y daflen glawr er mwyn dangos yn eglur sut cafodd marciau eu dyfarnu.</li> </ul>
------------------	--

Dyfarnu marciau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os gwnaethpwyd rhywfaint o waith mewn grwpiau, dyfarnwch farciau sy'n adlewyrchu cyfraniad pob ymgeisydd unigol.</li> <li>Os yw'r ymgeisydd wedi cael adborth ac arweiniad y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan y fanyleb, mae'n rhaid ystyried hynny. Dylech ddefnyddio'r egwyddor ffit orau ac anodi i esbonio sut cymhwyswyd marciau yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd.</li> </ul>
-----------------	---

Cwblhewch y ddogfennaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cofnodwch yr adborth a'r arweiniad rydych wedi'u rhoi.</li> <li>Nodwch y marciau yn ôl cyfarwyddyd y corff dyfarnu perthnasol.</li> </ul>
--------------------------	--

### Beth yw'r weithdrefn gywir os yw ymgeisydd yn cyflwyno dim ond ychydig o waith neu ddim yn cyflwyno unrhyw waith o gwbl?

Nid yw'r ymgeisydd yn cyflwyno unrhyw waith o gwbl **Rhaid** cofnodi bod yr ymgeisydd yn absennol (**nid dyfarnu marc o sero**) pan gyflwynir marciau i'r corff dyfarnu.

Dim ond ychydig iawn o waith y mae'r ymgeisydd yn ei gyflwyno Os oes rhywfaint o waith wedi'i gynhyrchu, rhaid asesu'r gwaith yn erbyn y meini prawf asesu a'r cynllun marcio. Rhaid dyfarnu'r marc priodol. Os nad yw'r ychydig waith a gyflwynir yn haeddu credyd, rhaid dyfarnu marc o sero.

### A oes angen i'r ganolfan ddweud wrth ymgeiswyr beth yw marciau eu hasesiad?

Oes. **Rhaid** i'r ganolfan hysbysu ymgeiswyr am eu marciau sydd wedi'u hasesu gan y ganolfan oherwydd bod gan ymgeisydd hawl i ofyn am adolygiad o farcio'r ganolfan **cyn y cyflwynir marciau i'r corff dyfarnu**.

### Beth yw'r weithdrefn gywir ar gyfer ymgeisydd sy'n gwneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan?

**Rhaid** cynnal unrhyw adolygiad **cyn y cyflwynir marciau i'r corff dyfarnu**.

Rhaid dynodi digon o amser i ymgeiswyr i ganiatáu iddyn nhw adolygu copïau o ddeunydd, fel sy'n briodol, a chyrraedd penderfyniad. Rhaid i'r ganolfan hefyd ganiatáu digon o amser i gynnal adolygiad o'r marcio, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i roi gwybod i'r ymgeisydd o'r canlyniad cyn terfyn amser y corff dyfarnu. Rhaid i'r adolygiad o'r marcio gael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, nad yw wedi ymwneud ag asesu'r ymgeisydd hwnnw yn y gorffennol ac nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb personol yn yr adolygiad. Rhaid i'r adolygwr sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodir gan y ganolfan.

Rhaid i ganolfannau hefyd esbonio'n glir i ymgeiswyr y gallai'r marciau a asesir gan y ganolfan newid yn ystod y broses gymedroli.

### Beth yw'r weithdrefn gywir i'w dilyn pan fydd athro yn addysgu ei blentyn ei hun?

Rhaid i'r ganolfan ddatgan gwrthdaro buddiannau a chyflwyno'r gwaith sydd wedi'i farcio i'w gymedroli, p'un ag yw'n rhan o'r sampl cymedroli ai peidio.



### 5.3 Safoni mewnol

Mae'n rhaid i athrawon nodi'r dyddiad pan farciwyd y gwaith ar waith ymgeiswyr, neu ar y daflen glawr.

Mae'n bwysig bod pob athro sy'n rhan o'r broses o asesu uned/cydran yn marcio'n ôl yr un safonau. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod marciau ar draws aseswyr a grwpiau addysgu'n cael eu safoni'n fewnol. Mae'r drefn ganlynol yn enghraifft o arfer dda.

#### Dewch o hyd i ddeunyddiau cyfeirio yn gynnar iawn yn y cwrs

- Ceisiwch gael gafael ar ddeunyddiau enghreifftiol a ddarperir gan y corff dyfarnu a defnyddiwch ddeunydd archif eich canolfan eich hun.

#### Trefnwch sesiwn ragarweiniol o dreialu marcio cyn marcio

- Dylid cynnwys pob athro sy'n rhan o'r broses asesu.
- Cymharwch safonau drwy draws-farcio sampl bach o waith.
- Cytunwch ar ddealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf asesu.

#### Cynhaliwch ymarferion treialu marcio pellach ar gyfnodau priodol yn ystod y cyfnod marcio

- Gwnewch yr ymarfer treialu marcio/trawsfarcio eto.
- Sicrhewch fod unrhyw wahaniaethau o ran marcio'n cael eu datrys.

#### Ar ôl cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith marcio

- Trefnwch gyfarfod pellach i wneud addasiadau terfynol neu rhwch y cyfrifoldeb o gymharu marciau i'r athro sy'n gyfrifol am y safoni mewnol.

#### Gwnewch addasiadau terfynol i'r marciau cyn eu cyflwyno

- Os oes anghysondebau sicrhewch fod yr athro/athrawon dan sylw yn addasu'r marciau.
- Dylai'r athro sy'n gyfrifol am safoni mewnol wirio'r marciau newydd.

#### Cadwch y gwaith a thystiolaeth o safoni

- Cadwch dystiolaeth eich bod wedi safoni'r gwaith yn fewnol.
- Storiwch waith yr ymgeiswyr yn ddiogel tan ar ôl dyddiad cau ymholiadau am ganlyniadau y gyfres dan sylw neu nes bydd unrhyw apêl, gamymddwyn neu unrhyw ymholiad arall am ganlyniadau wedi ei gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf. **(Gweler adran 4.9, tudalennau 13-14.**

## 5.4 Trefniadau Consortiwm

Grŵp o ganolfannau lle mae ymgeiswyr yn cael eu haddysgu a'u hasesu gyda'i gilydd yw consortiwm. Os yw eich canolfan yn rhan o gonsortiwm, dylech ddilyn y camau canlynol.

- 1 Enwebwch gydlynedd consortiwm a fydd yn cysylltu â'r corff dyfarnu ar ran yr holl ganolfannau.
- 2 Dywedwch wrth y corff dyfarnu perthnasol fod eich canolfan yn rhan o gonsortiwm drwy gyflwyno ar-lein, gan ddefnyddio Porth Gweinyddu Canolfannau, Ffurflen y JCQ/CCA *Trefniadau consortiwm o ganolfannau ar gyfer gwaith a asesir yn y ganolfan* –  
  
Cyflwynwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob manyleb sy'n cael ei haddysgu a'i hasesu ar y cyd.  
**Cyflwynwch gais newydd ar gyfer pob cyfres arholiadau.**
- 3 Cyflwynwch y ffurflen erbyn y dyddiad cau swyddogol.
- 4 Dilynwch y gweithdrefnau safoni mewnol a ddisgrifir yn **adran 5.3 fel consortiwm** h.y. dylid cynnwys pob athro sy'n rhan o'r broses asesu ym mhob canolfan yn y consortiwm.
- 5 Cyflwynwch farciau fel y nodir yn **adran 5.5** y ddogfen hon.  
Mae pob canolfan yn y consortiwm yn cyflwyno marciau ar gyfer eu hymgeiswyr eu hunain.
- 6 Cyflwynwch sampl unigol o waith i'w gymedroli fel yr amlinellir gan y corff dyfarnu.  
  
Bydd y corff dyfarnu'n penodi'r un cymedrolwr i bob canolfan yn y consortiwm.  
  
Os bydd angen newid marciau, bydd y newid hwn yn berthnasol ar draws y consortiwm.
- 7 Cadwch eich gafael ar waith yr ymgeiswyr i gyd o'r holl ganolfannau yn y consortiwm tan ar ôl dyddiad cau ymholiadau am ganlyniadau'r gyfres dan sylw neu nes bydd unrhyw apêl, gamymddwyn neu unrhyw ymholiad arall am ganlyniadau wedi ei gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.  
  
Os bydd y consortiwm yn gwneud cais am adolygiad o'r cymedroli, rhaid i waith pob canolfan fod ar gael, gan y bydd angen y sampl gwreiddiol i adolygu'r gwaith cymedroli.

## 5.5 Cyflwyno marciau a gwaith i'w gymedroli

- 1 Gosodwch derfynau amser mewnol a fydd yn galluogi eich canolfan i gymhwyso unrhyw ymholiadau gan ymgeiswyr am adolygiadau o farcio ac i gyrraedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau a gwaith ymgeiswyr, fel y cyhoeddir gan y corff dyfarnu. Bydd hyn yn galluogi'r corff dyfarnu i fodloni'r terfyn amser ar gyfer cymedroli a rhyddhau canlyniadau. Gallai cyrff dyfarnu wrthod derbyn gwaith a gyflwynir ar ôl y terfyn amser.
- 2 Dilynwch gyfarwyddiadau'r corff dyfarnu ynglŷn â chyflwyno marciau. Fel arfer gwneir hyn yn electronig. **Cyfrifoldeb canolfannau yw gwirio'n ofalus y marciau maen nhw'n eu cyflwyno i gorff dyfarnu er mwyn sicrhau cyn lleied o wallau â phosibl. Rhaid i'r ganolfan wirio marciau'r ymgeiswyr i gyd, ddim y sampl i'w gyflwyno'n unig, a gwneud yn siŵr nad oes gwallau adio na thrawsgrifio wedi digwydd cyn eu cyflwyno.**
- 3 Cyflwynwch ddogfennau ategol sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu:
  - taflen ddilysu gwaith ymgeiswyr;
  - cadarnhad bod y gwaith wedi cael ei safoni'n fewnol;
  - unrhyw wybodaeth bwnc-penodol.

### A yw'n bosibl cael estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau?

Lle mae amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth yn effeithio ar ganolfan, gallai fod yn bosibl cael estyniad byr mewn achosion eithriadol. Penderfyniad y corff dyfarnu fydd hynny. Mae'n rhaid i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl i wneud cais am estyniad. Os na chedwir at derfynau amser ar gyfer cyflwyno marciau a samplau, gallai olygu na fydd canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar amser.

## 5.6 Storio a chadw gwaith ar ôl cyflwyno marciau

- |                     |  |
|---------------------|--|
| Sampl i'w gymedroli | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadwch gofnod o enwau a rhif ymgeiswyr y rhai y cafodd eu gwaith ei gynnwys yn y sampl. Efallai y bydd angen y wybodaeth hon os cynhelir adolygiad o'r cymedroli.</li> <li>• Mae cymedrolwyr fel arfer yn dychwelyd y gwaith yn uniongyrchol i'r canolfannau ond ni ddychwelir gwaith a gyflwynir yn electronig.</li> </ul> |
|---------------------|--|

- |                      |  |
|----------------------|--|
| Gwaith wedi'i farcio | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadwch eich gafael ar waith sydd wedi'i farcio dan amodau diogel tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer ymholiadau am ganlyniadau neu nes bydd unrhyw apêl, gamymddwyn neu ymholiad arall am ganlyniadau wedi ei gwblhau, pa bynnag un sydd hwyrach. Mae hyn yn berthnasol i bob darn o waith – p'un ag oedd yn rhan o'r sampl cymedroli ai peidio.</li> <li>• Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cymryd camau i ddiogelu gwaith sy'n cael ei storio'n electronig rhag ei lygru a gwneud yn siŵr bod gweithdrefn cadw copïau wrth gefn ar waith.</li> <li>• Os yw cadw'r gwaith yn broblem oherwydd natur y gwaith, cadwch ryw fath o dystiolaeth megis lluniau, recordiadau sain neu fideo.</li> </ul> |
|----------------------|--|

- |                                   |  |
|-----------------------------------|--|
| Dyfyniadau a gwaith enghreifftiol | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cyrff dyfarnu yn cadw gwaith rhai ymgeiswyr at ddibenion archifo a safoni.</li> <li>• Gweler <b>paragraffau 6.12 i 6.19</b> o gyhoeddiad y CGC <i>Cyfarwyddiadau Cyffredinol i Ganolfannau Cymeradwy</i> am wybodaeth am hawlfraint <a href="http://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations">http://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations</a></li> </ul> |
|-----------------------------------|--|

## 5.7 Cymedroli allanol – y broses

Pwrpas cymedroli yw sicrhau bod safon y marcio'n gyson ar draws pob canolfan.

Dethol y sampl

- Mae'r corff dyfarnu (neu'r cymedrolwr sy'n gweithredu ar ei ran) yn nodi'r sampl a fydd yn cynnwys gwaith o'r ystod cyrhaeddiad cyfan yn y ganolfan. **Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod y cymedrolwyr yn derbyn y samplau gwaith cywir i'w hadolygu.**

Cyflwyno'r sampl

- Ar gyfer y rhan fwyaf o unedau/cydrannau, mae'r ganolfan yn anfon sampl gwaith naill ai at y cymedrolwr neu'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu, yn unol â chyfarwyddiadau.
- Ar gyfer rhai unedau/cydrannau mae'r cymedrolwr yn ymweld â chanolfan i farcio'r sampl gwaith.
- Defnyddir gwahanol weithdrefnau ar gyfer pynciau fel Addysg Gorfforol, lle mae'r gwaith yn fyrhoedlog.

Asesiad  
enghreiffiol

- Mae'r cymedrolwr yn asesu'r gwaith yn y sampl gan ddefnyddio'r meini prawf marcio cyhoeddedig.

Cymharu a newid  
marciau

- Mae marciau'r cymedrolwyr am y sampl gwaith yn cael eu cymharu â marciau'r ganolfan.
- Os bydd angen tystiolaeth bellach ar y cymedrolwr o farcio'r ganolfan gallai wneud cais am rywfaint o'r gwaith sy'n weddill neu'r gwaith i gyd.
- Os bydd y gwahaniaeth rhwng marciau'r cymedrolwr a marciau'r ganolfan yn mynd y tu hwnt i'r goddefiant a ganiateir, ond bod y cymedrolwr yn cytuno ar y cyfan â threfn restrol y ganolfan, efallai y bydd marciau'r ganolfan yn cael eu newid.
- Os bydd y cymedrolwr yn anghytuno'n sylweddol â threfn restrol y ganolfan (efallai oherwydd na chafodd y weithdrefn safoni mewnol ei gweithredu'n effeithiol) gallai'r corff dyfarnu ofyn i'r ganolfan ailystyried ei marciau. Fel arall, gallai marciau'r cymedrolwr gael eu defnyddio ar gyfer pob ymgeisydd yn y ganolfan ac, mewn rhai amgylchiadau, gallai'r corff dyfarnu godi tâl.

Adborth i  
ganolfannau

- Bydd y marciau terfynol wedi'u cymedroli yn cael eu hanfon i'r canolfannau'n electronig pan gyhoeddir y canlyniadau.
- Bydd ffurflenni adborth yn cael eu hanfon hefyd.

## 5.8 Cymedroli allanol – adborth

### Pa fath o adborth y gallwn ei ddisgwyl?

Bwriad adborth yw galluogi'r ganolfan i gymryd camau adfer, os bydd eu hangen, cyn y gyfres nesaf o arholiadau. Y nod yw rhoi adborth adeiladol, gwrthrychol, wedi'i gefnogi gan ffeithiau neu farn, a digon o fanylder i esbonio unrhyw wahaniaethau rhwng asesiadau'r ganolfan a'r safon y cytunwyd arni ar gyfer yr uned/cydran.

Bydd adborth yn ymdrin â'r agweddau canlynol:

Tasgau

- A oeddent yn briodol (yn yr achosion hynny lle cawsant eu gosod neu eu rhoi mewn cyd-destun gan y ganolfan)?
- A oedd y tasgau'n ymdrin yn ddigonol â'r amcanion asesu?

Asesiadau'r ganolfan

- A oeddent yn gywir yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni ar gyfer yr uned/cydran?

Gwaith gweinyddol y ganolfan

- A oedd yn foddhaol?

## 6 Asesiad dan reolaeth: trefniadau mynediad

Mae dogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol, 1 Medi 2018 i 31 Awst 2019* yn rhoi gwybodaeth fanwl –

<http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration>

Mae cyrff dyfarnu wedi datblygu eu manylebau i gydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud â chydreddoldeb.

**Ni ddylai** trefniadau mynediad, pan fyddan nhw'n cael eu caniatáu, danseilio dilysrwydd y cymhwyster.

Mewn egwyddor, os yw trefniant mynediad yn rhan o ffordd arferol ymgeisydd o weithio o fewn y ganolfan, fel arfer bydd trefniant tebyg yn cael ei ganiatáu ar gyfer arholiadau ysgrifenedig ac asesiadau dan reolaeth. **Rhaid i ganolfannau wneud cais am drefniadau mynediad ymlaen llaw cyn arholiadau ac asesiadau dan reolaeth.**

### Sut gall canolfannau baratoi eu hunain i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr sydd â threfniadau mynediad?

Pan fydd yr amserlen ar gyfer sesiynau asesu dan reolaeth yn cael ei llunio, ystyriwch y bydd angen goruchwyllo'r ymgeiswyr sydd â hawl i amser ychwanegol.

Rhaid i'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o unrhyw drefniadau mynediad y mae angen eu defnyddio ar gyfer asesiadau di-arholiad.



## 7 Asesiad dan reolaeth: ystyriaeth arbennig

Mae dogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* yn rhoi gwybodaeth fanwl – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration>

### 7.1 Absenoldeb

#### A fydd ymgeiswyr sy'n absennol yn gymwys am ystyriaeth arbennig?

Absenoldeb tymor byr achlysurol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd yr ymgeisydd yn absennol yn annisgwyl am un neu fwy o'r sesiynau asesu dan reolaeth a oedd dan oruchwyliaeth.</li> </ul>	<p><b>Nid yw'n gymwys</b> am ystyriaeth arbennig.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd gael cyfle i gael yr amser a gollwyd yn ôl.</p>
Wedi ymuno â'r cwrs ar gyfnod diweddarach <b>(Gweler adran 12, tudalen 30 ar gyfer ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd yr ymgeisydd yn absennol am rywfaent o'r sesiynau asesu dan reolaeth oherwydd iddi/iddo ymuno â'r cwrs ar gyfnod diweddarach.</li> </ul>	<p><b>Nid yw'n gymwys</b> am ystyriaeth arbennig.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd gael y cyfle i gael yr amser a gollwyd yn ôl, os yw'n bosibl.</p>
Absenoldeb mwy hirdymor <b>cyn</b> y gyfres arholiadau derfynol  <b>(Nid yw hyn yn berthnasol i ymgeiswyr canolfannau Lloegr)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd yr ymgeisydd yn absennol am resymau derbyniol pan gyflawnodd ei gyfoedion/chyfoedion uned/cydran asesu dan reolaeth.</li> <li>Roedd yr uned/cydran yn cael ei chyflwyno <b>cyn</b> y gyfres arholiadau derfynol.</li> <li>Bydd cyfle arall i'r ymgeisydd gael ei asesu cyn y gyfres y bydd yn cael ei ardystio ynddi.</li> </ul>	<p><b>Nid yw'n gymwys</b> am ystyriaeth arbennig.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd gyflwyno'r uned/cydran mewn cyfres arholiadau ddilynol.</p>
Absenoldeb mwy hirdymor <b>yn ystod</b> y gyfres arholiadau derfynol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yr oedd yr ymgeisydd yn absennol am resymau derbyniol pan gyflawnodd ei gyfoedion/chyfoedion uned/cydran asesu dan reolaeth ac nid oedd yn gallu cwblhau'r gwaith yn ddiweddarach, cyn diwedd y cyfnod cyhoeddedig.</li> <li>Roedd yr uned/cydran yn cael ei chyflwyno yn y gyfres arholiadau derfynol.</li> <li>Gan mai dyma gyfres arholiadau derfynol yr ymgeisydd ni fydd cyfle arall i gwblhau'r gwaith sydd i'w asesu.</li> </ul>	<p><b>Gallai fod yn gymwys</b> am ystyriaeth arbennig ar yr amod y caiff y meini prawf cyhoeddedig eu bodloni.</p>

### Beth yw'r meini prawf i ymgeisydd sydd wedi bod yn absennol i fod yn gymwys am ystyriaeth arbennig?

- Mae'r ymgeisydd wedi astudio'r cwrs TGAU cyfan ac wedi paratoi'n llawn ar gyfer yr uned/cydran asesu dan reolaeth berthnasol.
- Nid oedd yr ymgeisydd yn gallu cwblhau'r asesiad perthnasol **yn ystod y gyfres ardystio** ar yr un pryd â'i gyfoedion/chyfoedion am reswm derbyniol, h.y. anaf, salwch neu anhwylder dros dro arall (Ile'r oedd yr asesiad wedi'i drefnu am gyfnod cyfyngedig o amser).
- Mae'r ganolfan wedi cymryd pob cam rhesymol i geisio sicrhau bod modd i'r ymgeisydd gwblhau'r uned/cydran asesiad dan reolaeth mewn sesiwn dan oruchwyliaeth ddilynol, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i gael estyniad byr.
- Mae'r ganolfan yn gallu nodi'n glir y rhesymau pam nad oedd yn bosibl cwblhau'r uned/cydran asesiad dan reolaeth yng nghyfres yr arholiad terfynol trwy gytuno ar estyniad.
- Mae'r ganolfan yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer graddio uwch.
- Mae'r ganolfan yn cefnogi'r cais am ystyriaeth arbennig.

### A oes unrhyw amgylchiadau lle byddai'r corff dyfarnu yn derbyn darn o waith sy'n llai o faint na'r hyn sy'n ofynnol?

Oes, cyhyd â bod **pob un** o'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni.

- Mae'r fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i gwblhau mwy nag un darn o waith.
- Mae pob darn o waith yn cael ei asesu yn erbyn yr un meini prawf.
- Mae'r ymgeisydd wedi cwblhau o leiaf un darn o waith ac wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith.

## 7.2 Colli gwaith

### Beth yw'r meini prawf i ymgeisydd y mae ei waith ar goll i fod yn gymwys am ystyriaeth arbennig?

Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am gollir gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r gwaith wedi'i golli oherwydd esgeuluster ar ran yr ymgeisydd.</li> </ul>	<b>Nid yw'n gymwys</b> am ystyriaeth arbennig.
---	---	--

Y ganolfan sy'n gyfrifol am gollir gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid esgeuluster ar ran yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am gollir gwaith.</li> <li>• Mae'r ganolfan yn gallu dilysu bod y gwaith wedi'i gwblhau neu wedi'i gwblhau'n rhannol a'i fod wedi cael ei fonitro wrth i'r ymgeisydd weithio arno.</li> </ul>	Mae'n <b>gymwys</b> am ystyriaeth arbennig.
---	--	---



## Beth yw'r weithdrefn i ymgeisydd y mae ei waith ar goll i wneud cais am ystyriaeth arbennig?

Ceisiwch am arweiniad

Cyfeiriwch at ddogfen y CGC  
*Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* –  
<http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration>

Rhowch wybod am y gwaith sydd ar goll

Cyflwynwch **Ffurflen 15 – JCQ/LCW** i'r corff dyfarnu perthnasol –  
<http://www.jcq.org.uk/exams-office/forms>

Os cafodd y gwaith ei farcio cyn iddo gael ei golli neu ei ddifrodi

Cyflwynwch y marc yn y ffordd arferol.  
 Cyflwynwch **Ffurflen 15 – CGC/LCW** i'r cymedrolwr a'r corff dyfarnu erbyn y terfyn amser i gyflwyno marciau.

Os **nad** oedd y gwaith wedi'i farcio cyn iddo gael ei golli neu ei ddifrodi

Cyflwynwch amcan farc ar **Ffurflen 15 – CGC/LCW**.  
 Seiliwch y marc hwn ar asesiad yr athro o'r gwaith a welwyd.  
**Peidiwch** â cheisio amcangyfrif marciau am waith nad ydych wedi'i weld.

Os mai dim ond rhan o'r gwaith sydd ar goll

Ewch at y corff dyfarnu am arweiniad pellach.

## 8 Asesiad dan reolaeth: rhoi cynnig arall arni

### A oes unrhyw amgylchiadau lle gall ymgeisydd gynhyrchu darn o waith newydd cyn i'r marciau gael eu cyflwyno i'r corff dyfarnu?

Os bydd y ganolfan yn fodlon cynnal goruchwyliaeth a/neu farcio ychwanegol, gallai fod yn bosibl i'r ymgeisydd roi cynnig arall ar y dasg.

### **A all ymgeiswyr roi cynnig ar dasg o'r newydd sy'n gofyn am reolaeth uchel (goruchwyliaeth ffurfiol)?**

**Ni** chaniateir i ymgeisydd roi cynnig ar yr un dasg neu wella gwaith sydd eisoes wedi'i gyflwyno. **Caniateir i ymgeisydd roi cynnig ar wahanol dasg ar yr amod bod dewis dilys arall ar gael ar gyfer y gyfres dan sylw.** Gall yr ymgeisydd aildddefnyddio'r ymchwil a wnaed eisoes os yw'n berthnasol i'r dasg newydd.

### **A yw'n angenrheidiol i ddarparu tasg arall pan mae gwaith yn cael ei gynhyrchu dan reolaeth ganolig (goruchwyliaeth anffurfiol)?**

**Nac ydy.** Mae gan yr ymgeisydd hawl i addasu a gwella ei waith/gwaith, ar yr amod bod yr adborth a'r cyngor mae'n ei gael yn unol â gofynion y fanyleb neu'r canllawiau pwnc-benodol.

## **9 Asesiad dan reolaeth: ailgofrestru ar gyfer unedau/cydrannau yn 2018/19**

### **A all ymgeiswyr ailgofrestru ar gyfer unedau/cydrannau asesu dan reolaeth?**

Dim ond ymgeiswyr sy'n dilyn cynllun asesu TGAU **unedol** sy'n gallu ailgofrestru ar gyfer unedau/cydrannau asesu dan reolaeth yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/2019. Dim ond unwaith y gellir ailgofrestru ymgeisydd ar gyfer uned/cydran cyn ardystio. (**Nid yw hyn yn berthnasol i ymgeiswyr canolfannau Lloegr.**)

### **A all ymgeisydd sy'n ailgofrestru roi cynnig arall ar yr un dasg?**

**Gall,** ar yr amod nad yw hynny'n cael ei wahardd gan y fanyleb a bod y dasg yn parhau i fod ar gael ac yn ddilys.

Pynciau lle <b>nad</b> yw'r dasg yn cael ei newid bob blwyddyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall ymgeisydd sy'n ailgofrestru ar gyfer mis Mehefin 2019 roi cynnig arall ar yr un dasg.</li> <li>• Rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w asesu fod yn gwbl newydd. Ni ellir caniatáu i'r ymgeisydd addasu gwaith a gyflwynwyd eisoes.</li> <li>• Gall yr ymgeisydd aildddefnyddio ymchwil a gyflawnwyd eisoes.</li> </ul>
--	--

Pynciau lle mae'r dasg yn newid bob blwyddyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw'r uned/cydran ar gael mewn mwy nag un gyfres yn y flwyddyn, a'r un dasg sydd ar gyfer pob cyfres, caniateir i ymgeisydd sy'n ailsefyll yn y flwyddyn honno roi cynnig arall ar yr un dasg.</li> <li>• Rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w asesu fod yn gwbl newydd. Ni ellir caniatáu i'r ymgeisydd addasu gwaith a gyflwynwyd eisoes.</li> <li>• Gall yr ymgeisydd aildddefnyddio ymchwil a gyflawnwyd eisoes.</li> <li>• Os yw'r uned/cydran yn perthyn i un gyfres y flwyddyn yn unig, ni fydd cyfle i ymgeisydd roi cynnig arall ar yr un dasg.</li> </ul>
--	--

**Beth os yw'r uned/cydran yr ail-gofrestrir ar ei chyfer yn cael ei chyfrif tuag at y rheol derfynol o 40% ar gyfer cymhwyster TGAU unedol?**

Os bydd ymgeisydd wedi ailgofrestru ar gyfer uned/cydran a fydd yn cael ei defnyddio i gyfrannu at y rheol derfynol o 40%, bydd y marc newydd yn cael ei ddefnyddio – p'un ag yw'n well na'r marc blaenorol ai peidio. **A all ymgeiswyr ail-wneud tasgau unigol o fewn uned/cydran asesu dan reolaeth?**

**Na.** Os yw'r uned/cydran yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau nifer o dasgau, rhaid i ymgeisydd nad yw'n dymuno aildefnyddio'i farc blaenorol ail-wneud yr **holl** dasgau o fewn yr uned/cydran, fel bod yr holl waith a gyflwynir i'w asesu yn waith newydd. Ni all ymgeiswyr ailgyflwyno tasgau nac aildefnyddio'r marc blaenorol ar gyfer tasg unigol.

**A all ymgeiswyr aildefnyddio gwaith mewn gwahanol uned/cydran neu wahanol fanyleb?**

**Na.** Ni chaniateir i ymgeiswyr aildefnyddio gwaith o uned/cydran mewn un fanyleb ar gyfer uned/cydran o fanyleb arall (neu ar gyfer uned/cydran arall yn yr un fanyleb), naill ai yn yr un gyfres neu mewn cyfresi dilynol. Gall ymgeiswyr aildefnyddio'u gwaith ymchwil (ar yr amod na chafodd hwn ei asesu'n uniongyrchol yn y naill na'r llall o'r unedau/cydrannau) **ond rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w asesu fod yn gwbl newydd.**

## 10 Aseiad dan reolaeth: camymddwyn

I gael canllawiau manwl ar ymdrin ag achosion o gamymddwyn posibl dylech gyfeirio at ddogfen y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Aseidiadau: Polisiâu a Gweithdrefnau* – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

Ni ddylai ymgeiswyr:

- gyflwyno gwaith lle nad eu gwaith nhw ydyw;
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd;
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol;
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith;
- defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau;
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth;
- cynnwys deunydd amhriodol, anwedus neu sarhaus.

Nid yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd rhag benthg llyfrau neu adnoddau eraill i'w gilydd ond ni ddylent lèn-ladrata gwaith ymchwil ymgeiswyr eraill.

**Ni ddylai** ymgeiswyr roi eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylent fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/aseidiadau ar y Rhynggrwyd* – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-candidates---social-media>

**Rhaid** i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwyllo'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu aseiad dan reolaeth yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

**Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuan o gamymddwyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn ynddo'i hun.**

**Rhaid** i staff addysgu:

- fod yn wylidwrus o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol;
- codi a rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu.

**Beth ddylai ganolfan ei wneud os yw'n amau camymddwyn?**

Anghysondebau a nodir gan y ganolfan **cyn** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu (lle bo'n angenrheidiol)

- Dylai'r ganolfan ymdrin â'r anghysondeb yn unol â'i gweithdrefnau mewnol ei hun.
- Nid oes angen hysbysu'r corff dyfarnu am yr anghysondeb hwn. (Yr unig eithriad i hwn yw pan fo deunydd asesu cyfrinachol y corff dyfarnu wedi'i ddatgelu. **Rhaid** rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am hyn.)
- Rhaid cofnodi manylion unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun ar y ffurflen gofnodi.

Anghysondebau a nodir gan y ganolfan **ar ôl** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu (lle bo'n angenrheidiol)

- Rhaid i bennaeth y ganolfan roi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio **Ffurflen JCQ/M1**.
- Os bydd camymddwyn yn cael ei ganfod bydd y corff dyfarnu yn pennu cosb.

Anghysondebau a nodwyd gan arholwr neu gymedrolwr **ar ôl** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu (lle bo'n angenrheidiol)

- Bydd y corff dyfarnu yn gofyn i bennaeth y ganolfan gynnal ymchwiliad llawn ac yn gofyn iddo adrodd yn ôl am ei ganfyddiadau.

**Pa gosb fydd yn cael ei rhoi pan fydd achos o gamymddwyn?**

Os bydd achos o dorri'r rheoliadau yn dod i'r amlwg **ar ôl** i ymgeisydd lofnodi'r ddogfen ddilysu, bydd y corff dyfarnu yn penderfynu ar **un** o'r cosbau canlynol:

- bydd y darn o waith yn cael sero o farciau;
- bydd yr ymgeisydd yn cael ei wahardd o'r uned/cydran ar gyfer y gyfres arholiadau honno;
- bydd yr ymgeisydd yn cael ei wahardd o'r pwnc cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau honno;
- bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o bob pwnc ac yn cael ei rwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

## 11 Asesiad dan reolaeth: gwasanaethau ymholiadau am ganlyniadau

Dylech gyfeirio at ddogfen y CGC *Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau, Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau* i gael gwybodaeth fanwl am wasanaethau ymholiadau am ganlyniadau <http://www.jcq.org.uk/exams-office/post-results-services>

### Gallwch wneud cais am y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau canlynol.

Cydrannau sy'n cael eu hasesu'n allanol	Adolygiad o'r marcio (Gwasanaeth 2)
	Adolygiad Blaenoriaethol o'r marcio (Gwasanaeth Blaenoriaeth 2)

Cydrannau sy'n cael eu hasesu'n fewnol	Adolygiad o'r cymedroli (Gwasanaeth 3)
	<b>Nid</b> yw'r gwasanaeth hwn ar gael os na chafodd marciau'r ganolfan eu newid o ganlyniad i'r cymedroli gwreiddiol.
	<b><u>Ni all ymgeisydd unigol gael adolygiad o'r cymedroli.</u></b>

### Pa weithdrefn y dylid ei dilyn i wneud cais am adolygiad o'r cymedroli?

Agor adolygiad o'r cymedroli	• Cyflwyno cais am Wasanaeth 3 – Adolygiad o'r cymedroli.
	• Bydd y corff dyfarnu'n rhoi'r manylion am ble i anfon y sampl.

Dosbarthu'r sampl cymedroli	• Rhaid anfon y sampl cymedroli gwreiddiol i gael ei adolygu.
	• Rhaid dosbarthu'r sampl o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl cael cadarnhad gan y corff dyfarnu bod y cais wedi'i dderbyn.

Derbyn canlyniad yr adolygiad	• Byddwch yn cael eich hysbysu am y canlyniad.
	• Bydd adborth yn cael ei roi fel arfer.

**Pam mae angen cyflwyno'r sampl cymedroli gwreiddiol?**

Mae'r broses hon yn adolygu'r cymedroli gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. **Nid ail-gymedroli gwaith yr ymgeiswyr yw hyn.**

Bydd y corff dyfarnu wedi hyfforddi ei adolygwyr i gynnal adolygiadau o'r cymedroli yn gywir ac yn gyson.

Rhaid i'r sampl gwaith a gyflwynir i'w adolygu fod wedi'i storio'n ddiogel. Os oes tystiolaeth bod gwaith wedi'i ddychwelyd i ymgeiswyr bydd yr ymholiad yn cael ei ganslo.

**Beth fydd yn digwydd os bydd y ganolfan yn methu â dosbarthu'r sampl o fewn tri diwrnod gwaith?**

Gallai fod oedi i ganlyniad yr ymholiad neu efallai y bydd yr ymholiad yn cael ei ganslo.

**12 Asesiad dan reolaeth: materion eraill****Beth sy'n digwydd os bydd yn dod i'r amlwg ar ôl cyflwyno'r gwaith bod y dasg anghywir wedi ei rhoi i ymgeiswyr?**

**Rhaid** i'r ganolfan gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig. Mae cyrff dyfarnu'n gwneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn buddiannau ymgeiswyr ond mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl derbyn gwaith yn seiliedig ar y dasg anghywir. **Rhaid** i ganolfannau felly gymryd gofal mawr i sicrhau eu bod yn rhoi'r dasg gywir i ymgeiswyr ar gyfer y flwyddyn y cyflwynir y gwaith. **Gweler adran 3 am ragor o wybodaeth.**

**A all disgyblion sydd wedi'u gwahardd, ymgeiswyr preifat a'r rheini nad ydynt yn mynychu'r ysgol am ba bynnag reswm wneud asesiadau dan reolaeth?**

Dylech gyfeirio at y fanyleb berthnasol a/neu ganllawiau pwnc-benodol i ddechrau. Ni fydd rhai manylebau ar gael i ymgeiswyr y tu allan i addysg brif-ffrwd oherwydd natur benodol yr asesiadau dan reolaeth. Lle mae'r fanyleb ar gael i'r rheini y tu allan i addysg brif-ffrwd, **rhaid** i'r ganolfan sy'n gwneud y cofrestradau ar gyfer uned(au)/cydran(au) asesu dan reolaeth drefnu goruchwyliaeth, dilysu a marcio.

**Beth sy'n digwydd os bydd ymgeisydd yn symud i ganolfan arall yn ystod y cwrs?**

Gallai fod yn bosibl helpu ymgeiswyr sy'n symud i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae datrysiadau posibl yn dibynnu ar ba adeg o'r broses y mae'r ymgeisydd yn symud. Dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl i gael cyngor am achosion unigol.